

Papur Testun Rhif 15 Ynni – Crynodeb

Cyflwyniad

Mae cynhyrchu ynni yn fater allweddol gan y gwyddom ei fod yn cyfrannu at allyriadau CO₂ sy'n achosi newid yn yr hinsawdd. Cydnabyddir yn eang y bydd sicrhau cyflenwad cyson o ynni yn debygol o achosi problemau yn y dyfodol. Mae dwy elfen y dylid eu hystyried:

- Defnyddio ynni
Mae'n bwysig gostwng allyriadau CO₂ drwy ostwng cyfanswm yr ynni a ddefnyddir
- Cynhyrchu ynni
Mae'n bwysig cael dull cynaliadwy o gynhyrchu ynni a chyflenwad cyson i gymunedau er mwyn diwallu anghenion preswylwyr a busnesau nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd.

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn amlwg. Yn ogystal â gostwng allyriadau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio llai o ynni a chynyddu'r defnydd a wneir o ynni adnewyddadwy, mae pryderon ynglŷn â lleoliad y seilwaith. Mae'n debyg y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu achosion o dywydd eithriadol ac mae'n bwysig fod ffynonellau ynni a seilwaith cysylltiedig yn cael eu gosod mewn mannau lle maent yn llai tebygol o gael eu heffeithio, a'u bod yn cael eu dylunio gyda'r problemau posibl hyn mewn cof.

Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy presennol yn cynnwys:

- Gwynt ar y tir
- Gwynt ar y môr
- Ynni'r llanw
- Ynni tonnau
- Systemau solar ffotofoltäig
- Systemau solar thermol

- Biomas
- Gwres a phŵer cyfunedig (CHP)
- Treulwyr anaerobig
- Pympiâu gwres o'r ddaear
- Pympiâu gwres o'r aer
- Biodanwydd
- Ynni dŵr
- Nwy tirlenwi

Mae'n bwysig nodi nad dim ond y dechnoleg ei hun y dylid ei hystyried yn y CDLI, gall goblygiadau cynllunio godi o'r seilwaith cysylltiedig hefyd.

Cyd-destun

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r gostyngiad disgwylidig mewn lefelau cynhyrchu olew yn golygu bod angen datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy. Caiff hyn ei gydnabod yn eang mewn canllawiau, strategaethau a thargedau Ewropeaidd a chenedlaethol. O ganlyniad mae dylanwadau pwysig ar bolisiau a strategaethau ynni ac mae angen i'r rhain gael eu hymgorffori mewn polisiau ar lefel leol a bod yn sail i ddatblygiad polisiau'r CDLI. Mae canllaw gan yr UE a ddsbarthwyd ym mis Ionawr 2014 yn gosod targed gostyngiad o 40% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i gymharu â 1990 erbyn 2030; targed o 27% mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy; a rhoi rôl hanfodol i arbed ynni, er nad oes targed wedi'i osod. Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn gosod targed ar gyfer y DU i greu gostyngiad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Gall y CDLI nodi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy, a gall hefyd ofyn i ddatblygiadau newydd ostwng lefelau defnyddio ynni drwy ymgorffori dulliau arbed ynni a thechnoleg adnewyddadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu ym Mholisi Cynllunio Cymru para 12.9.2 y 'dylai awdurdodau cynllunio lleol arwain

datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel yn briodol drwy gynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a'r cyfleoedd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal gan gynnwys polisïau priodol mewn cynlluniau datblygu'.

Mae ynni yn destun hanfodol i'r thema datblygiad cynaliadwy yn gyffredinol. Gall hefyd effeithio ar agweddau allweddol eraill o'r CDLI sef:

- Seilwaith
- Cyfleoedd cyflogaeth
- Amaethyddiaeth
- Tirwedd
- Amgylchedd adeiledig a naturiol
- Arbed Ynni
- Dylunio

Rôl y Cynllun

Mae angen i'r CDLI gael polisïau a fydd yn cynorthwyo i gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer gostwng allyriadau CO2 ac annog cynhyrchiant ynni adnewyddadwy.

Fodd bynnag, mae angen dull gwaith cytbwys sy'n integreiddio problemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd angen polisïau a chynigion sy'n:

- Lliniaru'r rhesymau dros effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn addasu iddynt.
- Annog datblygiadau ynni adnewyddadwy bach yn agos at lle mae angen yr ynni
- Ceisio cyfeirio datblygiadau ynni adnewyddadwy mwy at leoliadau priodol
- Nodi'r ardaloedd hynny a ystyrir yn briodol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr
- Ceisio gwarchod y dirwedd, yr amgylchedd adeiledig a naturiol

- Hyrwyddo arallgyfeirio amaethyddol a diogelu tir amaethyddol e.e. drwy ddefnyddio ynni o dechnoleg gwastraff neu drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy
- Sicrhau fod datblygiadau newydd yn ymgorffori mesurau arbed ynni priodol, gan gynnwys gosodiadau priodol ar safleoedd
- Mynnu datblygiadau wedi'u dylunio'n dda

Oherwydd natur technoleg ynni adnewyddadwy, yn aml bydd angen cydbwysedd rhwng y gwahanol broblemau a bydd y CDLI yn ceisio darparu canllaw ar hyn.

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Strategaeth Ynni'r UE 2020 (2011)
- Map Ynni'r UE 2050 (2011)
- Cyfeiriad Arbed Ynni'r UE (2012)
- Papur Gwyrdd yr UE – Fframwaith 2030 ar gyfer Polisïau Hinsawdd ac Ynni
- Deddf Newid yn yr Hinsawdd (2008)
- Rheoliadau Adeiladu (Cymru)
- Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Cymru (2010)
- Cymru'n Un; Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru (2009)
- Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)
- Cynllun Gweithredu Bioynni Cymru – Adroddiad Cynnydd (2012)
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 6, 2014
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd yn 2013 – Cymru)
- Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Arweiniad Ymarferol (Llywodraeth Cymru, 2011)
- Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Offer ar gyfer Cynllunwyr (Llywodraeth Cymru, 2010)
- TAN 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)
- TAN12 Dylunio (2012)

- TAN22 Adeiladau Cynaliadwy (2010)

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

- Gwella lefelau arbed ynni
- Cyfrannu at dargedau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer gostwng allyriadau CO2
- Annog cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol
- Nodi meysydd addas ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr, gan gynnwys cyflogaeth ac ardaloedd diwydiannol
- Ystyried y materion trawsffiniol o ran cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr
- Sicrhau fod pob datblygiad yn cymryd i ystyriaeth buddiannau'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, y dirwedd, gwarchod natur ac amwynderau.
- Ymgorffori technoleg ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd
- Nodi p'un a yw'n briodol i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy 'strategol' gael eu darparu, ar sail asesiad ynni adnewyddadwy.

Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Roedd y CDU yn cynnwys polisi strategol ar Adnoddau a phump polisi perthnasol ym Mhennod 19 yn ymwneud â chynhyrchu ynni cynaliadwy / adnewyddadwy ac arbed ynni.

Cynigir fod y polisiâu a'r cynigion allweddol yn y CDLI yn ymwneud yn fras â:

- Dylunio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd
- Dylunio cynaliadwy wrth addasu ac aildefnyddio adeiladau mewn modd gefnogol
- Arbed adnoddau a defnydd ynni
- Cynhyrchu ynni a lleoliad seilwaith cysylltiedig
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy

- Lleoli a hwyluso prosiectau ynni adnewyddadwy mawr
- Diogelu cynlluniau ynni adnewyddadwy presennol
- Gwarchod y dirwedd hanesyddol a diwylliannol
- Gwarchod yr amgylchedd naturiol